

Trefniadau Cyllido ar ôl ymadael â'r UE

Cyflwynir yr ymateb hwn gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) ar sail gwybodaeth gan aelodau Fforwm Ewropeaidd y Trydydd Sector (3-SEF). Diben y fforwm yw monitro a chefnogi rôl y sector gwirfoddol yn y gwaith o ddylunio, rheoli a gweithredu rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru.

1. Cynnydd o ran sefydlu a darparu cronfeydd i ddisodli cyllid strwythurol yr UE, gan gynnwys;

Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU

Yn gyffredinol, rydym yn cefnogi'r polisi sydd wrth wraidd Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF) a'i flaenoriaethau buddsoddi. Mae'r problemau a'r heriau i'r sector gwirfoddol yn ymwneud mwy â'r perygl o ddatgysylltiad rhwng yr uchelgeisiau a nodir yn y polisi a'r gwaith ymarferol o lywodraethu, cynnwys a chyflwyno'r Gronfa – gan gynnwys yr amserlenni cysylltiedig.

Ar hyn o bryd, mae'r sector gwirfoddol yn bartner allweddol yn y gwaith o ddylunio a chyflwyno gweithgareddau i drechu tlodi ac anghydraddoldeb strwythurol yng Nghymru. O dan raglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-20, mae'r sector yn cynorthwyo mwy na 45,000 o bobl a mwy na 900 o fusnesau cymdeithasol, gyda buddsoddiad o dros £113 miliwn gan yr UE. Mae'r ffaith bod y sector mor agos at bobl a chymunedau mwyaf difreintiedig Cymru yn golygu ei fod yn cefnogi'r rheini na all darpariaeth nodweddiadol, prif ffrwd ei chyrraedd. Er enghraifft:

- Mae Cronfa Cynhwysiant Gweithredol CGGC wedi'i dylunio i helpu'r rheini sydd bellaf o'r farchnad lafur. Mae'r mudiadau y mae'n eu cyllido yn cefnogi pobl â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth. Ers mis Hydref 2015, mae'r Gronfa Cynhwysiant Gweithredol wedi cefnogi 175 o fudiadau, 475 o brosiectau a 22,150 o gyfranogwyr, ac wedi dyfarnu £48 miliwn o gyllid Ewropeaidd, sydd wedi denu £12 miliwn arall mewn cyllid cyfatebol, a ddarparwyd gan y mudiadau a dderbyniodd grant.

Bydd Cynlluniau Buddsoddi'r UKSPF yn cael eu datblygu yn ystod y misoedd nesaf, gyda'r ffenestr gyflwyno yn agor ar ddiwedd mis Mehefin ac yn cau ar 1 Awst. Mae Llywodraeth y DU yn disgwyl asesu'r cynlluniau dros yr haf a chyhoeddi cymeradwyaeth o fis Hydref, gyda'r taliadau cyntaf yn cael eu gwneud yn fuan ar ôl hynny. Gan ystyried y profiadau diweddar gyda chronfeydd newydd Llywodraeth y DU (fel y Gronfa Adfywio Cymunedol a'r Gronfa Perchnogaeth Gymunedol), teimlir bod yr amserlenni hyn yn optimistaidd. Mae'r Gronfa Adfywio Cymunedol yn benodol wedi dangos bod yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig â'r cronfeydd newydd mawr ledled y DU yn achosi oediadau na ellir eu hosgoi.

Dyma un o bryderon mwyaf y sector. Mae'r cyllid a ddarperir i Gymru gan Ewrop yn prysur leihau. Gan nad yw'r UKSPF ar waith eto, mae'r sector gwirfoddol yn dawnsio ar ddibyn, ac mae'n anochel y bydd yn colli capasiti, arbenigedd a seilwaith o'r sector a cholli gwasanaethau cymorth i rai o bobl a lleoedd mwyaf anghenus Cymru.

Er enghraifft, mae prosiect Cyflawni Newid drwy Gyflogaeth (ACE) 'Change Grow Live' ar ei gam olaf a bydd yn dod i ben ym mis Awst 2022. Mae'r prosiect wedi llwyddo i gynorthwyo llawer o bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a phobl fudol i gael gwaith yng Nghymru. Mae presenoldeb y mudiad yng Nghymru wedi'i gefnogi'n bennaf gan Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd. Gan nad yw'r UKSPF ar waith eto, a heb raglen gyllid neu gyllid pontio priodol arall, ni fydd gan bobl fynediad mwyach at y gwasanaeth hwn yng Nghymru.

Daw hyn ar adeg pan mae'r galw am wasanaethau'r sector yn cynyddu'n fwyfwy cyflym. Disgwylir y bydd yr effaith anghyfartal y mae'r pandemig wedi'i chael ar wahanol unigolion, grwpiau a chymunedau yn mynd o ddrwg i waeth gyda'r argyfwng costau byw. Ar adeg pan mae'n hanfodol bwysig i gael pobl, lleoedd a busnesau yn ôl ar eu traed i gefnogi ein hadferiad cymdeithasol ac economaidd, mae'r cyllid y mae'r sector wedi'i ddefnyddio dros yr 20 mlynedd ddiwethaf a mwy yn dod i ben.

Mae trefniadau cyllid pontio ar gyfer darpariaeth pobl a sgiliau a arweinir gan y sector gwirfoddol wedi'u cynnig yn Lloegr, ac mae CGGC wedi crybwyll yr angen am drefniadau tebyg yng Nghymru, gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Y Gronfa Adfywio Cymunedol

Mae'r Gronfa Adfywio Cymunedol wedi dangos rhai o'r heriau sy'n gysylltiedig â rhaglenni cyllido newydd a thymor byr. Wedi'i gyflwyno fel prawf ar gyfer yr UKSPF, rydym yn gobeithio y bydd yr hyn a ddysgwyd o'r gronfa beilot hon yn cael ei gydnabod ac yn cael sylw wrth ddatblygu ffrydiau cyllido ledled y DU yn y dyfodol.

Mae'r sector gwirfoddol wedi adrodd problemau gyda'r broses gynnig, telerau talu a'r amserlenni er enghraifft. Mae'r adborth a dderbyniwyd gan fudiadau gwirfoddol amrywiol sy'n cyflenwi prosiectau'r Gronfa Adfywio Cymunedol yng Nghymru ar hyn o bryd wedi'i fwydo'n ôl i Lywodraeth y DU a'r llywodraeth leol.

2. Sut mae'r cyllid a gynigir i Gymru a'r cyllid a dderbynnir drwy gyfranogiad parhaus y DU â rhaglenni'r UE, yn cymharu â'r cyllid a oedd yn cael ei dderbyn pan oedd y DU yn aelod o'r UE

Mae'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, a Chronfa Gymdeithasol Ewrop yn benodol, wedi'u defnyddio i roi sylw uniongyrchol i'r gwahaniaethu a'r anfantais a brofir gan rai unigolion a grwpiau, fel pobl anabl, menywod a phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Mae llawer o'r ymyraethau hyn wedi'u dylunio a'u harwain gan y sector gwirfoddol, fel rhaglen Cenedl Hyblyg 2 Chwarae Teg a phrosiect Buddsoddi EYST, a gyllidir gan y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol. Mae agenda Codi'r Gwastad a'r UKSPF yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag anfantais ac anghydraddoldeb sy'n seiliedig ar leoedd yn hytrach na dulliau sy'n canolbwyntio ar bobl.

3. Y mecanweithiau a'r strwythurau sy'n cael eu sefydlu i weinyddu'r cronfeydd hynny yng Nghymru, rolau'r rheini sy'n rhan o'r gwaith, yn enwedig Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, a'r effaith ganlyniadol ar drefniadau atebolrwydd

Cynigir bod yr UKSPF yn cael ei darparu ar ledled y pedwar ôl troed rhanbarthol yng Nghymru, gydag awdurdod lleol arweiniol yn cael ei bennu ym mhob ardal. Gallai hyn gyflwyno un o'r heriau mwyaf i'r sector gwirfoddol. Fel y dangoswyd yn ddiweddar pan gyflwynwyd y Gronfa Adfywio Cymunedol a chyda'r ymateb i Covid-19, mae gan rai mudiadau gwirfoddol gydberthynas gweithio cadarnhaol a chynhyrchiol, ac maen nhw'n cydweithio ar gynlluniau er mwyn mynd i'r afael â'r angen lleol, ond mae eraill yn gweithredu ar eu pennau eu hunain.

Nid yw rôl y strwythurau rhanbarthol, fel y Bargeinion Dinesig a Thwf a'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn eglur eto, ond gyda natur ranbarthol y cyflwyniad, rydyn ni'n tybio y bydd ganddynt rywfaint o gyfraniad a dylanwad. Yn gyffredinol, nid yw ymgysylltu â'r sector gwirfoddol a'i gynnwys wedi'u hymwreiddio yn y strwythurau rhanbarthol hyn. Ar y cyfan, nid yw'r cydberthnasau â mudiadau sy'n arwain ar gyfiawnder cymdeithasol, trechu tlodi a chreu cymdeithas fwy cyfartal wedi'u datblygu'n dda.

Heb ymgysylltu effeithiol, a arweinir gan awydd i gyd-gynhyrchu a chynnwys y sector gwirfoddol, mae'r cyllid hwn yn llawer llai tebygol o fod yn llywyddiannus a chael ei ddefnyddio'n gynhwysol. Mae perygl na fydd

cymunedau yn cael eu clywed neu'n methu â chael yr hyn sydd eu hangen arnynt fwyaf, ac ymbellhau ymhellach o brosesau penderfynu democrataidd.

O dan y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru, mae'r sector gwirfoddol wedi'i gefnogi i gymryd rhan drwy'r egwyddor partneriaeth a gwasanaeth cymorth technegol sy'n darparu cymorth gallu ar gyfer y sector. Gwnaeth gwerthusiad annibynnol diweddar o'r gwasanaeth ganmol ei lwyddiant ysgubol, gan nodi sut y byddai angen rhywbeth tebyg o dan unrhyw raglen ddisodli yn y dyfodol, fel yr UKSPF.

Mae angen rhyw gysondeb o ran sut y caiff y sector gwirfoddol ei gynnwys a'i gynrychioli ledled y rhanbarthau. Ni ellir cyflawni'r blaenoriaethau buddsoddi a amlinellir o fewn canllawiau cyn-lansio'r UKSPF heb y sector gwirfoddol. Rydym eisiau i'r sector gael ei drin yn gyfartal – llais cyfartal wrth y bwrdd penderfynu.

4. Swm y cyllid gwaddol y mae Cymru yn disgwyl ei gael yn dilyn ymadawiad y DU o'r UE a'r cysylltiad â rhaglenni cronfeydd strwythurol yr UE

Nid yw ymadawiad y DU o'r UE wedi effeithio ar lefel y buddsoddiad a sicrhawyd yn wreiddiol o'r rhaglenni Ewropeaidd. Mae'n anodd gwahanu lefel y cyllid a dderbyniwyd cyn ac ar ôl ymadawiad y DU o'r UE, gan fod cyllidebau a phroffiliau cyflenwi ar gyfer gweithrediadau yn cael eu cymeradwyo dros nifer o flynyddoedd.

Tystiolaeth bellach

Byddem yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at y sesiynau tystiolaeth ar lafar a gynlluniwyd ar gyfer tymor y gwanwyn.